

13.4 DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU ATHRO YMCHWIL

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

DYFARNU TEITL ATHRO: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU ATHRAWON YMCHWIL

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r cofnod hwn yn y Llawlyfr Academaidd yn disgrifio'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer dyfarnu Cadeiriau Ymchwil.

2. Cymhwysedd

- 2.1 Caiff cymhwysedd ei gyfyngu i gyn-aelodau llawn amser o staff academaidd Prifysgol Metropolitan Caerdydd sydd:

- wedi dwyn teitl Athro Prifysgol Metropolitan Caerdydd o'r blaen;
- wedi ymddeol o Gadair Athro llawn amser cyn cyrraedd yr oedran ymddeol arferol;
- wedi dod yn aelodau rhan amser o staff academaidd Prifysgol Metropolitan Caerdydd eto.

- 2.2 Ni fydd y rhai sydd wedi dwyn teitl Athro er Anrhydedd neu Athro Emeritws yn gymwys ar gyfer dyfarnu teitl Athro Ymchwil.

- 2.3 Disgwylir i Athro Ymchwil ymgymryd â rôl weithredol yng ngweithgarwch ymchwil adran neu adrannau ac ni fydd, fel arfer, yn gwneud gwaith addysgu na gweinyddu.

3. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr

- 3.1 Mae gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr y pŵer i ystyried ceisiadau am Gadeiriau Personol.

- 3.2 Cyfansoddiad Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yw:

- Llywydd ac Is-Ganghellor (Cadeirydd)
- Dirprwy Is-Ganghellor Academaidd
- Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesedd
- Dirprwy Is-Ganghellor Gwella Profiad Myfyrwyr
- Tri Athro a gaiff eu hethol gan y Bwrdd Academaidd.

- 3.3 Bydd y tri aelod etholedig yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am ddwy flynedd gyda'r posibilrwydd o'u hailbenodi am hyd at bedair blynedd yn barhaus.
- 3.4 Hefyd, bydd gan y Pwyllgor yr opsiwn o gyfethol aelodau mewnol dros dro i'r Pwyllgor lle y bo'n briodol.
- 3.5 Mae'n ofynnol i holl aelodau Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr ddatgan unrhyw achos o wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor.

4. Gweithdrefn Ddyfarnu

- 4.1 Caiff ceisiadau am deitlau Athro Ymchwil eu hystyried gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr ar ddwy adeg o'r flwyddyn academiaidd, yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn. Caiff dyddiadau cyflwyno eu cyhoeddi'n flynyddol ar wefan Adnoddau Dynol.
- 4.2 Bydd unigolion sy'n gymwys ar gyfer y teitl yn cyflwyno cais drwy ysgrifennu at Adnoddau Dynol, wedi'i gyfeirio at y Llywydd ac Is-Ganghellor, drwy ac yn unol ag argymhelliad ysgrifenedig Deon Ysgol (neu'r unigolyn cyfatebol) yr ymgeisydd.
- 4.3 Os bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn penderfynu dyfarnu'r teitl, bydd Adnoddau Dynol yn cadarnhau hyn drwy ysgrifennu at yr unigolyn. Bydd y Bwrdd Academiaidd hefyd yn cael gwybod am y dyfarniad.

5. Amodau

- 5.1 Disgwylir i'r sawl sy'n dwyn teitl Athro Ymchwil roi'r gorau i'r cyfryw deitl ar ôl ymddeol, neu os bydd yn derbyn cyflogaeth sefydlog rywle arall.
- 5.2 Bydd y sawl sydd wedi dwyn teitl Athro Ymchwil, ar ôl rhoi'r gorau i'r cyfryw deitl yn gymwys i gael teitl Athro Emeritws yn unol â'r amodau arferol.
- 5.3 Mae Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cadw'r hawl i ddiddymu'r teitl ar unrhyw adeg. Caiff y Bwrdd Academiaidd wybod os caiff teitl ei ddiddymu a'r dyddiad y daeth i rym.

6. Cyfle Cyfartal

- 6.1 Yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Prifysgol Metropolitan Caerdydd, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl

weithgarwch. Fel y cyfryw, caiff teitl Athro Ymchwil ei ddyfarnu ar sail teilyngdod a gallu. Bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr hefyd yn ystyried amgylchiadau anacademaidd a all fod wedi cyfyngu ar ddatblygiad gyrfa broffesiynol ymgeisydd neu ei ohirio o ran maint yn hytrach nag ansawdd yr allbynnau a'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r teitl.